# Taflen etholiad Senedd 2026

**Caerdydd Ffynnon Taf**

**Clymblaid Undebwyr Llafur a Sosialwyr Cymru**

**Mae’r daflen hon hefyd ar gael mewn gwahanol fformatau megis English, print bras, sain, ac Easy Read. Ewch at socialist.wales/pub/262/**

# 1 Clawr Blaen

Logo - Clymblaid Undebwyr Llafur a Sosialwyr Cymru

Logo - Plaid Sosialaidd (Milwriaethus gynt)

Caerdydd Ffynnon Taf

Dros lais Sosialaidd yn y Senedd a thros a chynrychiolwyr y gweithwyr ar gyflogau gweithwyr

- Dim rhagor o doriadau i'n GIG nac i wasanaethau cyhoeddus. O blaid cyllideb i Gymru ar sail angen.
- Rheolaethau rhent a thai Cyngor

- Dros ddyfodol heb ddyled, rhyfel a thrychineb hinsawdd ar gyfer ein hieuenctid.
- Undod dosbarth gweithiol: dros swyddi, tai a gwasanaethau i wrthwynebu rhaniad hiliol
- Cael plaid newydd rang i'r gweithwyr

Logo -TUSC Against Cuts

Pleidleisiwch X Undebwyr Llafur a Sosialwyr Cymru

Dangoswch yn eich ffenestr os gwelwch yn dda

# 2 Inside page, left

Yn yr etholiad ar 7 Mai gwnewch mwy na **dim ond** troi Llafur allan. Dyma'n cyfle i bleidleisio dros newid sosialaidd!

Mae'r Blaid Sosialaidd yn sefyll yn yr etholiad hwn fel rhan o'r **Glymblaid Undebwyr Llafur a Sosialwyr (TUSC).**

Ni yw'r rhai sy'n arwain trwy **uno'n gweithleoedd a chymunedau** i ymgyrchu i gael yr hawliau a'r adnoddau sydd angen – i danseilio hiliaeth, bai a rhaniad.

Rydyn ni'n gwrthod derbyn bod rhaid i bobl dosbarth gweithiol, ein GIG a gwasanaethau cyhoeddus talu I ddatrys problemau'r hynod gyfoethog.

Rydyn ni'n ymgyrchu i gael yr undebau llafur – fel sefydliadau democrataidd sy'n cael eu harwain gan eu haelodau ac yn cynrychioli gweithwyr a chymunedau – I wahanu oddi wrth Lafur ac i adeiladu plaid newydd y dosbarth gweithiol.

**Nid oes dewis arall ar y papur pleidleisio** sy'n addo pleidleisio yn erbyn yr holl doriadau i'n GIG a'n gwasanaethau cyhoeddus.

Ewch at socialist.wales i ddarllen ein maniffesto llawn a phleidleisiwch ✘ **Undebwyr Llafur a Sosialwyr** ar 7 Mai!

Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn English ac mewn gwahanol fformatau megis print bras, sain, ac Easy Read.

Ewch at socialist.wales/pub/262 neu ysgrifennwch at 25 Daviot Street, Caerdydd CF24 4SL.

Mae **John Williams** yn weithiwr lletygarwch, ymgyrchydd LGBT+, ac yn gadeirydd Cangen Gyffredinol Caerdydd o'r undeb Unite.

Mae **Helen Perriam** yn nyrs ac yn aelod o'r undeb Unsain, sydd wedi gweld yn uniongyrchol beth mae toriadau a phreifateiddio Llafur a'r Torïaid wedi gwneud i'n GIG.

Mae **Dave Bartlett** yn ysgrifennydd Cyngor Undebau Llafur Caerdydd ac wedi arwain ymgyrch llwyddiannus I achub cyfleusterau iechyd yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd.

# 3 Tudalen fewnol, dde

Chwiliwch amdanom ar eich papur pleidleisio yng Nghaerdydd Ffynnon Taf... Logo “TUSC Against Cuts”

**Cefnogwch ein hymwelwyr iechyd GIG**

Mae aelodau’r Blaid Sosialaidd yn helpu’r ymgyrch a streic gan ymwelwyr iechyd yng Nghymru i gael cyflog teg ar y band cyflog cywir sy’n cyd-fynd a’i sgiliau.

Mae ymwelwyr iechyd yn chwarae rhan hanfodol yn amddiffyn iechyd babanod newydd-anedig a’u rhieni. Ond maen nhw ar y band cyflog anghywir o ystyried eu sgiliau.

Mae gwleidyddion Llafur yn siarad llawer am gyflogau cyfartal ond mae gwastad yn gyflog cyfartal I LAWR i’r band cyflog isaf. Ac maen nhw’n gwrthod hyd yn oed cwrdd â’r ymwelwyr iechyd i drafod cyflogau teg.

Rydyn ni’n cefnogi dod â chyflogau’r ymwelwyr iechyd I FYNY i’r band cyflog cywir a thalu’r cyflog maen nhw’n ei haeddu.

- Ariannu’r GIG a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn

llawn yn gyhoeddus.

- Atal a gwrthdroi preifateiddio.
- Adeiladu Tai Cyngor mewn niferoedd mawr a rheoli rhent.
- Gwladoli nwy, trydan a dŵr i leihau biliau.
- Ail-wladoli'r rheilffyrdd, post a dur dan reolaeth ddemocrataidd y gweithwyr.
- Cael isafswm cyflog o £15 yr awr.
- Gwahardd contractau dim oriau a diswyddo ac ailgyflogi.
- Cael gwared â ffioedd dysgu.
- Na i ryfel! O blaid gweithredu undeb llafur ar raddfa eang i roi'r gorau i arfogi gwladwriaeth Israel.
- Brwydro i gael newid sosialaidd. Cymryd y cyfoeth oddi ar yr 1%.

**Allwch chi gefnogi ein hymgyrch?** Gallech chi argraffu poster i'ch ffenestr, ein gwahodd i siarad â'ch cangen undeb neu ymgyrch cymunedol, gwneud rhodd, gwirfoddoli, neu

ymuno â'r Blaid Sosialaidd. I gael rhagor o wybodaeth ewch at **socialist.wales** neu anfonwch neges destun at 07935 391 947.

# 4 Clawr cefn

**Ymunwch â'r Sosialwyr!**

Mae'r **Blaid Sosialaidd** yn brwydro dros Sosialaeth – cymdeithas sy'n cael ei rhedeg gan bobl dosbarth gweithiol er lles pawb ac nid elw ychydig o bobl. Rydyn ni hefyd yn brwydro dros faterion o ddydd i ddydd megis cyflogau, budd-daliadau, hawliau a diwedd i orthrwm a rhyfel.

Rydyn ni'n sefyll yn yr etholiad hwn fel rhan o'r Glymblaid Undebwyr Llafur a Sosialwyr am ein bod ni eisiau gweld yr her sosialaidd ehangaf posib yn y blwch pleidleisio – fel cam tuag at lais gwleidyddol annibynnol i'r dosbarth gweithiol.

Rydyn ni'n ymgyrchu dros blaid newydd y gweithwyr, yn seiliedig ar yr undebau llafur, sy'n denu gweithwyr, pobl ifanc, a chymunedau at ei gilydd i ddarparu dewis gwleidyddol arall i'r pleidiau busnes mawr sef Llafur, y Torïaid a Reform UK. Dewis sosialaidd ac ymladdgar.

Mae gan aelodau Plaid Sosialaidd Cymru record ardderchog o helpu arwain ymgyrchoedd llwyddiannus yn ein gweithleoedd, prifysgolion, colegau a chymunedau – fel

undebwyr llafur, ymgyrchwyr dros hawliau anabledd ac LGBT+ ac fel ymgyrchwyr yn erbyn hiliaeth.

**Os ydych chi'n sosialydd, hon yw eich plaid.**

**Ymunwch heddiw!**

**socialistparty.org.uk/join**

Argraffwyd gan Leafletfrog, Unedau 38-39, Britannia Way, Waters Meeting Industrial Estate, Bolton BL2 2HH. Hyrwyddwyd gan Gynrychiolydd Etholaethol Caerdydd, Joe Fathallah, 25 Daviot Street, Caerdydd, CF24 4SL ar gyfer Clymblaid Undebwyr Llafur a Sosialwyr Cymru, 29 Tir y Farchnad, Tregŵyr, Abertawe SA4 3GS, a TUSC, 17 Colebert House, Colebert Avenue, Llundain E1 4JP.